**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU

## Rheoliadau Bwydydd a Addaswyd yn Enetig a Bwydydd Newydd (Labelu) (Cymru) 2000

### Y Cefndir
Mae'r rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau ar gyfer gorfodi rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd ynghylch–

(a) labelu bwydydd penodol a gynhyrchir o organeddau sydd wedi'u haddasu yn enetig,

(b) labelu bwydydd newydd er mwyn enwi cynhwysion a all ddwyn goblygiadau iechyd ar gyfer personau penodol, codi pryderon moesegol neu gynnwys organeddau a addaswyd yn enetig.

Mae'r rheoliadau hefyd yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas â gofynion penodol ynghylch sut y dylid labelu.

Mae'r rheoliadau ar yr un ffurf i raddau helaeth â rheoliadau a wnaed ar gyfer Lloegr ar 16 Mawrth 2000 (OS 2000/768, a ddaeth i rym ar 10 Ebrill 2000). Mae'r Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol wedi nodi nad oes ganddynt ddim i gyflwyno adroddiad arno ynghylch y rheoliadau ar gyfer Lloegr (Sesiwn 1999-2000, yr 16eg Adroddiad).

### Rheol Sefydlog 11.5
Gan eu bod wedi cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar ddrafft cynnar o'r rheoliadau hyn, llwyddodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor i godi nifer o bwyntiau sydd bellach wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y drafft terfynol. Gan hynny, nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt, o dan Reol Sefydlog 11.5.

Yn yr un modd, o ran sylwadau cyffredinol, y cyfan a geir yw ambell bwynt teipograffyddol a restrir isod.

### Sylwadau Cyffredinol

Rheoliad 2(2) – mae angen priflythyren ar yr ail gyfeiriad at "regulations".

Rheoliad 2(3) – mae "fasarlwydd" wedi'i gamsillafu.

Rheoliadau 4(c), 5(2)(b), 9(b) a 13(2)(b) – nid yw'r testun wedi'i alinio'n gywir.

**J H TURNBULL**
Cynghorydd Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfau

Cyf: LAD 01-01-078

16 Mehefin 2000